



Canllawiau S4C ar osod cynnyrch
Mehefin 2012

1. Cyflwyniad

- 1.1 O'r 28ain o Chwefror 2011 ymlaen, bydd gosod cynnyrch a chyfeiriadau masnachol yn cael eu caniatáu mewn rhai mathau o raglenni a ddarlledir. Diffinnir gosod cynnyrch gan Ofcom fel "cynnwys neu gyfeirio at, gynnyrch, wasanaeth neu nod masnach mewn rhaglen at ddibenion masnachol, yn gyfnewid am daliad neu gydnabyddiaeth werthfawr arall i unrhyw ddarparwr perthnasol neu unrhyw berson yn gysylltiedig â'r darparwr perthnasol, ac sydd ddim yn osod propiau." Dylai cynhyrchwyr gyfeirio at Adrannau diwygiedig 9.6-9.14 o Gôd Darlledu Ofcom (yn weithredol o 28.2.11) a'r canllawiau perthynol am fanylion pellach.
- 1.2 Bwriad y canllawiau hyn yw cynnig arweiniad am arfer da ar gyfer gosod cynnyrch o fewn rhaglenni a gomisiynir gan S4C, ac amlinellu rhaniad ar incwm neu arbedion sy'n deillio o osod cynnyrch (y manylion wedi eu cytuno gyda TAC).
- 1.3 Prif bryder S4C fel darlledwr gwasanaethau cyhoeddus yw gwarchod a chynnal annibyniaeth olygyddol o fewn ei rhaglenni. Rhaid i'r gwylwyr gael ffydd mewn gwrthrychedd rhaglenni a gwasanaethau S4C bob amser. Mae'n hanfodol i hygredd ac enw da S4C fod ei gwylwyr yn gallu bod yn sicr na fydd unrhyw osod cynnyrch yn rhy amlwg nac yn cael ei hyrwyddo'n ormodol fel y bo'n taseilio didueddrwydd ac unplygrwydd S4C ac nad yw penderfyniadau golygyddol yn cael eu dylanwadu gan unrhyw wrthdaro buddiannau.
- 1.4 Mae'r canllawiau hyn yn ceisio sicrhau y gellir ymelwa ar gyfleoedd masnachol er mwyn cynyddu'r cyllid sydd ar gael ar gyfer cynhyrchu rhaglenni ond heb gyfaddawdu annibyniaeth olygyddol S4C na chreu unrhyw ganfyddiad o hynny.
- 1.5 Os na fydd cynhyrchwyr yn cydymffurfio â'r canllawiau hyn, yna mae'n bosib y bydd oedi wrth dderbyn rhaglenni tra bod newidiadau yn cael eu gwneud, neu gall arwain at wrthod derbyn y rhaglenni o dan sylw.

2. Canllawiau S4C

Egwyddorion Sylfaenol

- 2.1 Mae S4C yn bwriadu gweithredu trefniadau gosod cynnyrch o fewn ei rhaglenni (fel a ganiateir gan Gôd Ofcom). Petai S4C (ei hun neu drwy asiant) yn sicrhau trefniant gosod cynnyrch yn gysylltiedig â rhaglen S4C, byddai S4C yn disgwyl i'r cwmni cynhyrchu perthnasol i osod y fath gynnyrch mewn modd priodol o fewn y rhaglen ar yr amod bod y gosod:
 - 2.1.1 yn gyson â briff golygyddol a busnes y rhaglen;
 - 2.1.2 ddim yn cyfaddawdu gwerthoedd golygyddol y rhaglen; a
 - 2.1.3 ddim yn effeithio'n ormodol ar y cynhyrchiad na'r amserlen cyfleu.
- 2.2 Yn amodol ar Gôd Ofcom ac adrannau 2.3-2.11, 3, 4 a 6 isod, gall y cynhyrchwyr eu hunain wneud trefniadau gosod cynnyrch o fewn rhaglenni a gynhyrchir ganddynt am gydnabyddiaeth o daliad ariannol neu gydnabyddiaeth werthfawr arall (heb fod yn daliad ariannol).

Ymarfer gweithredu

- 2.3 Crêd S4C fod tryloywder a llif cyson o wybodaeth rhwng cynhyrchwyr ag S4C a/neu ei hasiant masnachol yn hanfodol er mwyn manteisio ar gyfleoedd gosod

cynnyrch. Ystyrir y bydd angen cytuno briff golygyddol y rhaglen cyn cymryd unrhyw gamau er mwyn gosod cynnyrch.

- 2.4 Disgwylir i'r partïon gytuno mewn ewyllys da ar gynllun gweithredu ar gyfer rhaglenni perthnasol gan gynnwys:
- ystyriaeth o'r math o gynnyrch a ellir ei osod,
 - i ba gwmnïau ac am ba bris y dylid cynnig y cyfleoedd; a
 - phwy fydd yn cyfathrebu â'r fath gwmnïau.
- 2.5 Mae'n rhaid cael cymeradwyaeth S4C ymlaen llaw cyn i gynhyrchydd gymryd unrhyw gamau i osod cynnyrch mewn rhaglen. Gellir cael cymeradwyaeth o'r fath drwy anfon e-bost i gosodcynnyrch@s4c.co.uk gan gynnwys manylion y cynnyrch, pwy sydd yn mynd i'w gyflenwi a sut y bwriedir gosod y cynnyrch yn y rhaglen.
- 2.6 Cedwir yr hawl gan S4C i wrthod gosod unrhyw gynnyrch yn ei rhaglenni ar y sail y byddai cynnwys o'r fath yn torri amodau Côt Ofcom, ar sail fasnachol e.e. ble bo'n effeithio trefniadau gyda noddwyr y rhaglen neu'r digwyddiad, ar sail olygyddol neu am unrhyw reswm y mae S4C yn ei llwyr ryddid yn barnu i fod yn rhesymol neu'n angenrheidiol. Bydd penderfyniad S4C yn derfynol.
- 2.7 Er mwyn sicrhau tryloywder a bod gwylwyr yn ymwybodol o osod cynnyrch, rhaid i hysbysiad cyffredinol ymddangos ar y sgrin ar ddechrau a diwedd rhaglen sy'n cynnwys gosod cynnyrch, yn ogystal â phan fydd y rhaglen yn aildechrau ar ôl egwyl fasnachol. Dylai'r hysbysiad ymddangos am gyfanswm o dair eiliad ar ddechrau pob rhan ac ar ddechrau'r cydnabyddiaethau i gloi'r rhaglen. Dylai'r rhaglenni a ganiateir i beidio dangos cydnabyddiaethau i gloi osod yr hysbysiad dair eiliad yn union cyn i gydnabyddiaeth y cynhyrchiad a'r rhybudd hawlfraint ymddangos ar ddiwedd y rhaglen. Am fanylion pellach ar Ganllawiau Cydnabyddiaethau Rhaglenni S4C gweler:
- http://www.s4c.cymru/media/media_assets/4_Credit_Guidelines_Cymraeg.pdf
- 2.8 Y cynhyrchwyr fydd yn gyfrifol am sicrhau bod y fath hysbysiad yn gynwysedig yn yr holl raglenni a gyflenwir i'w darlledu gan S4C yn unol â'r canllawiau a osodwyd gan Ofcom o dro i dro a Chanllawiau Brand S4C.
- 2.9 Dylai cynhyrchwyr sicrhau bod manylion llawn unrhyw drefniadau gosod cynnyrch yn cael eu cynnwys ar y Ffurflenni PAC ar gyfer y rhaglen berthnasol.
- 2.10 Cyfrifoldeb y cynhyrchwyr fydd sicrhau fod unrhyw osod cynnyrch o fewn eu rhaglenni yn cydymffurfio'n llwyr gyda Chod Ofcom ynghyd ag unrhyw ganllawiau perthnasol eraill gan gynnwys unrhyw God Ymarfer a gyhoeddir gan S4C o bryd i'w gilydd. Am fanylion pellach ar y rheolau, dylai cynhyrchwyr gyfeirio at Adrannau diwygiedig 9.6-9.14 o Gôd Darlledu Ofcom a'r canllawiau ar gyfer yr adrannau hynny (yn weithredol o 28.2.11).
- 2.11 Bydd unrhyw drefniant gosod cynnyrch yn cael ei gwblhau yn unol â chytundeb safonol S4C/TAC.

3. Tâl am osod cynnyrch (arian)

- 3.1 Fe rennir unrhyw incwm ariannol a geir o osod cynnyrch fel a ganlyn:

- comisiwn o 20% i'r person sy'n dod o hyd i'r gosod cynnyrch (unai'r cynhyrchydd neu S4C/ei hasiant); gyda'r gweddill:
- i'w ail-fuddsoddi yng nghyllideb y rhaglen; neu, lle bo S4C o'r farn nad yw hynny'n ymarferol - i'w rannu 50:50 rhwng S4C a'r cynhyrchydd.

3.2 Os trefnir gosod cynnyrch cyn cytuno ar ffi drwydded y rhaglen, yna bydd S4C a'r cynhyrchydd yn trafod addasu'r ffi drwydded i adlewyrchu'r fath drefniadau yn unol â pharagraff 3.1 uchod, neu yn cytuno ar drefniadau llif arian pwrpasol ar gyfer y rhaglen.

4. Cydnabyddiaeth werthfawr arall am osod cynnyrch (heb fod yn daliad ariannol)

4.1 Os bydd cwmni cynhyrchu yn darganfod ac yn trefnu cytundeb gosod cynnyrch (sy'n cael ei gymeradwyo gan S4C yn unol ag adran 2 uchod) am gydnabyddiaeth werthfawr (heb fod yn ariannol) a bod hyn yn creu tanwariant ar y ffi drwydded yna dylai'r cynhyrchydd hysbysu S4C o'r swm er mwyn trafod:

- a) ailgyfeirio'r arbedion i dalu am elfen cost arall o fewn y rhaglen. Bydd angen i'r cynhyrchydd sicrhau caniatâd comisiynydd cynnwys S4C cyn ailgyfeirio unrhyw arbedion; neu
- b) lle mae cytundeb i beidio ac ailgyfeirio'r arbedion, bydd cyfanswm yr arian (llai 20% ar gyfer comisiwn y cynhyrchydd) i'w rannu'n gyfartal rhwng S4C a'r cynhyrchydd. Bydd y swm a delir i'r cynhyrchydd yn ddarostyngedig i uchafswm o 5% o'r ffi drwydded neu £10,000 (pa bynnag fo'r isaf).

4.2 Bydd unrhyw fudd gweddillol a gedwir gan y cynhyrchydd uwchlaw'r arbedion cost a ragwelir uchod yn ddarostyngedig i drefniadau penodol rhwng S4C a'r cynhyrchydd, ac fe ddelir â hyn achos wrth achos.

4.3 Os trefnir gosod cynnyrch cyn cytuno ar ffi drwydded y rhaglen, yna bydd S4C a'r cynhyrchydd yn trafod addasu'r ffi drwydded i adlewyrchu'r fath drefniadau yn unol â'r canllawiau hyn, neu yn cytuno ar drefniadau llif arian pwrpasol ar gyfer y rhaglen.

5. Rhaglenni wedi'u hariannu drwy hysbysebion

Atgoffir y cynhyrchwyr bod rhaid iddynt gydymffurfio â Chanllawiau Nawdd S4C mewn perthynas â'r holl raglenni a ariennir drwy hysbysebion. Bydd angen i'r cynhyrchydd gydweithio gydag S4C lle mae cyfle i ariannu rhaglen yn y modd hwn.

6. Ymholiadau, datrys anghydfod ac adolygu'r canllawiau

Ymholiadau

6.1 Y comisiynydd cynnwys fydd prif gyswllt S4C ar gyfer gosod cynnyrch. Os hoffai cynhyrchwyr drafod unrhyw agwedd o osod cynnyrch, dylent gysylltu â'r comisiynydd cynnwys perthnasol. Weithiau bydd raid i'r comisiynydd cynnwys gyfeirio ymholiadau i uned gyfreithiol S4C. Noder fod uned gyfreithiol S4C yn gwarchod a chynrychioli diddordebau S4C yn unig ac felly dylai cynhyrchwyr gymryd cyngor gyfreithiol annibynnol lle bo'r angen. Ni fydd hysbysu unrhyw barti o sefyllfa neu safbwynt S4C yn effeithio hawliau S4C neu unrhyw o rwymedigaethau'r cynhyrchydd o dan y cytundeb neu drwydded rhwng S4C a'r cynhyrchydd.

Datrys anghydfod

- 6.2 Gall adegau godi pan fydd barn S4C a/neu ei asiant masnachol a barn y cynhyrchydd o ran gosod cynnyrch yn wahanol. Os ceir gwahaniaeth barn, dylai'r partïon geisio datrys y mater ymysg ei gilydd yn y lle cyntaf.
- 6.3 Pan na fydd modd datrys y mater fel hyn, dylid ei gyfeirio at Gyfarwyddwr Cynnwys S4C, ac wedi hynny (os yw'n parhau heb ei ddatrys) i Brif Weithredwr S4C.
- 6.4 Os yw'r mater yn parhau heb ei ddatrys, gellir apelio i Bwyllgor Cwynion a Chydymffurfiaeth Awdurdod S4C a bydd y rhan honno o Bolisi Cwynion S4C sy'n ymwneud ag apeliadau i Awdurdod S4C yn weithredol.

Adolygu

- 6.5 Bydd y canllawiau hyn yn cael eu hadolygu gan S4C chwe mis wedi iddynt ddod yn weithredol, ac yn ôl y gofyn wedi hynny. Bydd unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau i'r canllawiau hyn yn cael eu trafod gyda'r sector gynhyrchu, ac yn cael eu cyhoeddi ar wefan cynhyrchu S4C <http://www.s4c.cymru/cy/cynhyrchu/>

Mehefin 2012